

Cronfa Ardrethi Annomestig Cymru – Cyfraniad Alldro (NDR3 2021-22): Nodiadau Cyfarwyddyd

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Llinellau 1 a 2 Ardrethi gros sy'n daladwy	2
Rhyddhadau gorfodol.....	3
Llinellau 3 a 4 Rhyddhad Trosiannol	3
Llinellau 5 a 6 Elusennau	3
Llinellau 6.5 a 6.6 Clybiau chwaraeon amatur cymunedol cofrestredig	4
Llinellau 8, 8.5 ac 8.6 Rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.....	4
Llinellau 9 a 10 Eiddo a feddiannir yn rhannol.....	4
Llinellau 11 a 12 Eiddo gwag	5
Llinellau 12.5 a 12.6 Toiledau Cyhoeddus	5
Llinell 13 Y swm gros	6
Llinell 14 Ôl-ddyledion.....	6
Llinell 15 Dyddiad yr wybodaeth ddiweddaraf a ystyriwyd	6
Llinell 16 Y swm gros sy'n daladwy.....	6
Rhyddhad yn ôl disgresiwn	7
Llinell 17 Deiliadaeth elusenol.....	7
Llinell 17.5 Clybiau chwaraeon amatur cymunedol cofrestredig	7
Llinell 18 Cyrff nad ydynt yn gwneud elw	8
Llinell 19 Busnesau Gwledig (Rhyddhad Ardrethi Gwledig)	8
Llinell 21 Caledi.....	9
Llinell 22 Arwystlon ar eiddo	9
Llinell 23 Arenillion net.....	10
Llinell 24 Lwfans ar gyfer costau casglu.....	10
Llinell 25 Colledion wrth gasglu.....	10
Llinell 26 Ad-dalu gordaliadau / llog ar ad-daliadau	11
Llinell 27 Cyfraniad i'r gronfa.....	11
Eitemau memorandwm	11
Llinellau 40 i 43	11
Cymorth Gwladwriaethol a Rheoli Cymorthdaliadau	12
Ardystio	12

Cyflwyniad

1. O dan baragraff 5(6) o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (y cyfeirir ati isod fel "Deddf 1988") mae'n ofynnol i bob awdurdod bilio, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gyfrifo swm ei gyfraniad ardrethu annomestig ar gyfer y flwyddyn a hysbysu Llywodraeth Cymru am y swm. Mae'n rhaid i'r awdurdod wedyn drefnu i'r cyfrifiad a'r swm hysbysedig gael eu hardystio o dan drefniadau a wneir gan Archwilio Cymru ac i'r ffurflen ardystiedig gael ei hanfon i Lywodraeth Cymru.
2. Dylid gwneud y cyfrifiad ar gyfer 2021-22 (y cyfeirir ati isod fel 'y flwyddyn gyfredol') yn unol â Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 (OS 1992/3238), fel y'u diwygiwyd ('y Prif Reoliadau').
3. Ceir y rheoliadau ar gyfer y cyfrifiad alldro yn Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau. Nid yw'r nodiadau hyn yn disodli'r rheoliadau ond yn hytrach maent yn ceisio esbonio'r hyn sy'n ofynnol o dan y rheoliadau a'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei ddangos yn ei gyfrifiad ac fe'u darperir fel arweiniad yn unig. Dylai awdurdodau bilio gyfeirio at y Prif Reoliadau.
4. Darperir Ffurflen NDR3 ar gyfer y cyfrifiad. Mae'r ffurflen hefyd yn ceisio'r wybodaeth sydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru wrth benderfynu p'un a ddylai arfer ei phwerau o dan Atodlen 8 i Ddeddf 1988 mewn perthynas â blynyddoedd dilynol.
5. Dylid e-bostio copi o'r daenlen wedi'i chwblhau a PDF wedi'i lofnodi i Lywodraeth Cymru erbyn **27 Mai 2022** fan bellaf. Ar yr un pryd dylid anfon y ffurflen wreiddiol at archwilwyr yr awdurdod i'w hardystio. Dylid gwneud trefniadau gydag archwilwyr yr awdurdod i anfon PDF o'r ffurflen ardystiedig i Lywodraeth Cymru drwy e-bost erbyn **18 Tachwedd 2022** fan bellaf. Dylai'r awdurdod bilio anfon taenlen wedi'i diweddarau at Lywodraeth Cymru yn electronig yr un pryd.
6. O dan reolau a nodir ym mharagraffau 5(9) i (12) o Atodlen 8 i Ddeddf 1988 bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud datganiad interim o'r cyfrif alldro ar sail y swm a ardystir gan Brif Swyddog Cyllid yr awdurdod ac yr hysbysir Llywodraeth Cymru amdano cyn yr archwiliad. Wedyn gwneir y setliad terfynol ar sail y swm archwiliedig o dan reoliad 10 o'r Prif Reoliadau neu baragraff 5(14) o Atodlen 8 i Ddeddf 1988.
7. Dylid gwneud cyfrifiadau ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac unrhyw addasiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol drwy gyfeirio at y lluosydd NDR ar gyfer y flwyddyn berthnasol. Dylid cofnodi pob swm i'r bunt agosaf.

Llinellau 1 a 2 Ardrethi gros sy'n daladwy

8. Yr ardrethi gros sy'n daladwy yw'r arenillion mwyaf posibl y gellid eu cael, yn ddamcaniaethol, o ardrethi pe bai eiddo a ddangosir yn y rhestr ardrethu annomestig yn cael ei feddiannu a phe na bai'n cael unrhyw ryddhad. Yn Llinell 1 nodwch yr arenillion gros mewn perthynas â 2021-22 a gyfrifwyd drwy gyfeirio at gyfanswm y gwerth ardrethol a ddangosir yn y rhestr ar gyfer pob diwrnod yn y flwyddyn a'r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2020-21, sef **0.535**. Yn Llinell 2 nodwch gyfanswm:

- (i) symiau mewn perthynas â'r arenillion ardrethu gros ar gyfer blynyddoedd blaenorol (a gyfrifwyd drwy gyfeirio at y gwerth ardrethol yn y rhestr ar gyfer pob diwrnod yn y blynyddoedd hynny a'r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer y blynyddoedd hynny) nas ystyriwyd yn y cyfrifiad alldro ar gyfer y blynyddoedd hynny;

a

- (ii) symiau mewn perthynas â thaliadau a ohiriwyd o 2019-20. Dylai'r swm a gynhwysir yn 2021-22 gyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y cyfanswm a ohiriwyd yn 2019-20, a'r symiau wedi'u gohirio a gynhwyswyd yn 2020-21.

llai

- (ii) symiau a ystyriwyd yn yr arenillion ardrethu gros yn y cyfrifiad alldro ar gyfer blynyddoedd blaenorol ond na ddylent, ar sail y wybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Rhyddhadau gorfodol

Llinellau 3 a 4 Rhyddhad Trosiannol

9. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Cymru) 2016 yn effeithio ar incwm o ardrethi drwy gyfyngu ar y swm y gall bil ardrethi sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (SBRR) ar 31 Mawrth 2017 gynyddu yn unol ag ef ar 1 Ebrill 2017. Diben hyn yw helpu trethdalwyr a dderbyniodd lai o SBRR neu ddim o gwbl ar ôl yr ailbrisio yn 2017 i osgoi codiadau sylweddol.

Yn Llinell 3 nodwch gyfanswm:

- (i) ffigur yr awdurdod bilio ar gyfer cyfanswm y rhyddhad trosiannol a roddir o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Yn Llinell 4 nodwch gyfanswm:

- (i) ffigur yr awdurdod bilio ar gyfer cyfanswm addasiadau'r flwyddyn flaenorol a roddwyd o fewn y flwyddyn ariannol bresennol, ond na chawsant eu hystyried mewn cyfrifiad alldro;
llai
- (ii) cyfanswm unrhyw symiau o'r fath a gafodd eu hystyried mewn cyfrifiad alldro mewn blwyddyn flaenorol, ond na ddylent fod wedi'u hystyried.

Llinellau 5 a 6 Elusennau

10. Mae adran 43(5) ac adran 43(6)(a) o Ddeddf 1988 yn darparu na ddylai elusennau dalu mwy nag 20% o'r swm a geir drwy luosi gwerth ardrethol eu hereditamentau â'r lluosydd NDR.

11. Yn Llinell 5 nodwch amcangyfrif gorau'r awdurdod o'r gostyngiad yn yr arenillion ardrethi o ganlyniad i gymhwyso rhyddhad ardrethi gorfodol o 80% ar gyfer eiddo a feddiannir gan elusennau yn yr ardal mewn perthynas â diwrnodau yn 2021-22. Yn Llinell 6 nodwch gyfanswm:

- (i) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol nas ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol; llai
- (ii) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol a ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn

flaenorol ond na ddylent, ar sail y wybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Llinellau 6.5 a 6.6 Clybiau chwaraeon amatur cymunedol cofrestredig

12. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003, adran 64(1) yn darparu ar gyfer rhyddhad ardrethi gorfodol i glybiau chwaraeon amatur cymunedol cofrestredig o 1 Ebrill 2004. Yn Llinell 6.5 nodwch amcangyfrif gorau'r awdurdod o'r arenillion a gollwyd yn 2021-22 o ganlyniad i gymhwyso rhyddhad ardrethi gorfodol o 80% ar gyfer eiddo a feddiannir gan glybiau chwaraeon amatur cymunedol cofrestredig, yn rhinwedd adran 43(5) a (6)(b) o'r Ddeddf. Yn Llinell 6.6 nodwch gyfanswm:

- (i) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol nas ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol; llai
- (ii) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol a ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol ond na ddylent, ar sail y wybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Llinellau 8, 8.5 ac 8.6 Rhyddhad ardrethi i fusnesau bach

13. Yn Llinell 8 nodwch gyfanswm:

- (i) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol nas ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol; llai
- (ii) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol a ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol ond na ddylent, ar sail y wybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

14. Yn Llinell 8.5 a Llinell 8.6 nodwch amcangyfrif gorau'r awdurdod o'r arenillion a gollwyd yn 2021-22 o ganlyniad i gymhwyso'r rhyddhad hwn mewn perthynas â busnesau bach o dan Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2017 fel y'i diwygiwyd.

15. O ganlyniad i Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2019, nid yw peiriannau ATM bellach yn gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.

16. Cynyddodd y Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) uchafswm gwerth ardrethol yr hereditamentau sy'n bodloni'r amodau gofal plant. Mae hyn yn golygu bod pob hereditament sydd â gwerth ardrethol o £100,000 neu lai, sy'n bodloni'r amodau gofal plant, yn gymwys i gael rhyddhad llawn o dan y cynllun.

Llinellau 9 a 10 Eiddo a feddiannir yn rhannol

17. Mae adran 44(A) o Ddeddf 1988 yn darparu, os bydd rhan o eiddo heb ei feddiannu am gyfnod byr, y gall awdurdod bilio ofyn i'r Swyddog Prisio ddosrannu gwerth ardrethol yr hereditament rhwng y rhan a feddiannir a'r rhan sydd heb ei meddiannu. Wedyn cyfrifir y swm y gellir ei godi drwy gymhwyso'r lluosydd at y gwerth ardrethol is, sef y rhan ardystiedig o'r gwerth ardrethol sydd i'w phriodoli i'r rhan a feddiannir neu, os yw'r hereditament yn un y mae'r deiliad

yn gorfod talu ardrethi eiddo gwag mewn perthynas ag ef, i swm dosraniad ardystiedig y gwerth ardrethol ar gyfer y rhan a feddiannir a 100% o ddosraniad ardystiedig gwerth ardrethol y rhan sydd heb ei meddiannu.

18. Yn Llinell 9 nodwch amcangyfrif gorau'r awdurdod o'r gostyngiad yn yr arenillion ardrethu o ganlyniad i gymhwyso gwerth ardrethol hereditament rhwng y rhan ohono a feddiannir a'r rhan honno sydd heb ei meddiannu o dan adran 44(a) o Ddeddf 1988 mewn perthynas ag unrhyw gyfnod yn 2021-22. Yn Llinell 10 nodwch gyfanswm:

- (i) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol nas ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol; llai
- (ii) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol a ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol ond na ddylent, ar sail y wybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Llinellau 11 a 12 Eiddo gwag

19. Mae Deddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 yn darparu mai'r arenillion ardrethi ar gyfer eiddo heb ei feddiannu fydd 100% o'r arenillion ar gyfer eiddo a feddiannir (os nad yw adran 45 yn gymwys yna ni fydd unrhyw ardrethi yn daladwy).

20. Yn Llinell 11 nodwch y gostyngiad yn yr arenillion ardrethi sydd i'w briodoli i'r ffaith bod yr eiddo yn wag am y cyfnod cyn dyddiad yr ailgyfrifiad mewn perthynas â diwrnodau yn 2021-22. Yn Llinell 12 nodwch gyfanswm:

- (i) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol nas ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol; llai
- (ii) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol a ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol ond na ddylent, ar sail y wybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Llinellau 12.5 a 12.6 Toiledau Cyhoeddus

21. Mae Deddf Ardrethi Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) 2021 yn darparu 100% o ryddhad ardrethi ar gyfer toiledau cyhoeddus.

22. Yn Llinell 12.5 nodwch y gostyngiad yn yr arenillion ardrethi sydd i'w briodoli i'r ffaith bod eiddo yn cael ei ddosbarthu yn doiled cyhoeddus mewn perthynas â'r flwyddyn gyfredol.

23. Yn Llinell 12.6 nodwch gyfanswm:

- (i) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol nas ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol; llai
- (ii) amcangyfrif gorau'r awdurdod o unrhyw symiau o'r fath mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol a ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol ond na ddylent, ar sail yr wybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Llinell 13 Y swm gros

24. Cyfrifir Llinell 13 fel Llinellau 1 i 2 llai Llinellau 3 i 12, a dylai gyfateb i'r ffigur a nodir yn Llinell 16, sef y swm gros sy'n daladwy.

Llinell 14 Ôl-ddyledion

25. Yn Llinell 14 nodwch amcangyfrif gorau'r awdurdod o'r **holl** ardrethi annomestig nad oeddent wedi cael eu derbyn erbyn 31 Mawrth 2022. Dylid dangos y swm yn gros o gredydau neu flaendaliadau. Dylid cynnwys dyledion amheus neu symiau y mae darpariaeth ar gyfer ddrwgddyledion wedi'i gwneud yn eu herbyn ond **ni** ddylid cynnwys symiau a ddilewyd fel drwgddyledion.

Llinell 15 Dyddiad yr wybodaeth ddiweddaraf a ystyriwyd

26. Wrth wneud y cyfrifiad mae'n rhaid i awdurdodau ystyried yr holl wybodaeth a gafwyd ar neu cyn 31 Ionawr 2022. Mae'n rhaid i'r cyfrifiad hefyd ystyried gwybodaeth a gafwyd ar ôl y dyddiad hwnnw ar yr amod ei bod yn rhesymol ymarferol gwneud hynny. Yn Llinell 15 nodwch y dyddiad olaf y mae gwybodaeth wedi'i hystyried mewn perthynas ag ef.

Llinell 16 Y swm gros sy'n daladwy

27. Mae paragraff 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer cyfrifo'r swm gros. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n ofynnol hefyd i'r awdurdodau ddangos sut mae'r swm gros yn ymwneud â'r ardrethi gros sy'n daladwy.

28. Dylid cofnodi'r swm gros yn Llinell 16 a bydd yn cyfateb i gyfanswm:

- (i) y symiau y gellir eu codi sy'n daladwy i'r awdurdod ar gyfer y flwyddyn gyfredol, **ar ôl ystyried eiddo gwag neu eiddo a feddiannir yn rhannol, rhyddhad ardrethi gwledig elusennol gorfodol ac addasiadau trosiannol;**
a
- (ii) y symiau y gellir eu codi sy'n daladwy i'r awdurdod ar gyfer blynyddoedd blaenorol ond nas ystyriwyd mewn cyfrifiad alldro;
llai
- (iii) cyfanswm unrhyw symiau o'r fath a ystyriwyd yn flaenorol mewn cyfrifiad alldro ar gyfer blwyddyn flaenorol ond na ddylid bod wedi'u hystyried.

Cynrychiolir symiau (1) a (2) uchod gan swm G yn y fformiwla ym mharagraff 2(1) o Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Cynrychiolir swm (3) gan swm H.

29. Mae angen didynnu symiau mewn perthynas â rhyddhad yn ôl disgrisiwn ac unrhyw arwystlon a sicrhawyd ar eiddo o'r swm gros er mwyn cael yr arenillion net.

30. Bydd pob didyniad yn cyfateb i'r swm net gan ystyried unrhyw addasiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, bydd hyn yn cynnwys cyfanswm canrannau perthnasol symiau pob rhyddhad a roddwyd mewn perthynas â phob diwrnod yn y flwyddyn gyfrif, ac mewn unrhyw ddiwrnod mewn blwyddyn flaenorol nad ystyriwyd yn flaenorol mewn cyfrifiad alldro, llai cyfanswm unrhyw symiau o'r fath a ystyriwyd mewn cyfrifiad alldro blaenorol na ddylent, o edrych yn ôl, fod wedi cael eu hystyried.

Er enghraifft:

A thybio y byddai gan eiddo fil ardrethi llawn o £10,000 y flwyddyn (Blwyddyn 1) ond ei fod yn cael rhyddhad yn ôl disgresiwn o 60% o dan adran 47(5B) a fewnosodwyd gan adran 69(6) o'r Ddeddf Lleoliaeth. Yn y cyfrifiad alldro ar gyfer Blwyddyn 1, byddai'r awdurdod yn sgorio £10,000 fel rhan o swm G o'r swm gros. O'r rhyddhad gwerth £6,000 a roddid, câi 90% (£5,400) ei ganiatáu fel didyniad yn erbyn y gronfa a'i gofnodi yn Llinell 18, a chât'r £600 a fyddai'n weddill ei godi'n lleol. Felly, y cyfraniad i'r gronfa ar gyfer yr eiddo hwnnw fyddai £10,000 - £5,400 = £4,600.

A thybio, ym Mlwyddyn 2, fod newid i'r rhestr ardrethu yn newid yr atebolrwydd ar gyfer blwyddyn 1 yn ôl-weithredol fel bod y bil ardrethi llawn ar gyfer yr eiddo ar gyfer y flwyddyn honno bellach yn £8,000. Golyga hyn fod swm o £2,000 wedi'i ystyried yn y swm gros ar gyfer y flwyddyn flaenorol na ddylai, o edrych yn ôl, fod wedi cael ei ystyried. Felly, yn alldro blwyddyn 2, câi £2,000 ei gynnwys fel addasiad blwyddyn flaenorol er mwyn **lleihau'r** swm gros (fel rhan o swm H). Fodd bynnag, bydd y newid mewn atebolrwydd hefyd yn gostwng swm y rhyddhad o £6,000 i £4,800. Mae 90% o'r swm hwn yn £4,230, h.y. £1,080 yn llai nag o'r blaen. Felly, bydd angen i'r awdurdod sgorio £1,080 fel addasiad blwyddyn flaenorol a fydd yn **lleihau'r** didyniad ar gyfer rhyddhad o dan o dan adran 47(5B) a fewnosodwyd gan adran 69(6) o'r Ddeddf Lleoliaeth. Felly, caiff y cyfraniad i'r gronfa ar gyfer Blwyddyn 2 ei leihau £2,000 - £1,080 = £920.

Rhyddhad yn ôl disgresiwn

Llinell 17 Deiliadaeth elusennol

31. Mae adran 47(5B) a fewnosodwyd gan adran 69(6) of o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (meddiannaeth elusennol) yn galluogi awdurdodau bilio i ychwanegu at y rhyddhad gorfodol a roddir i elusennau o dan adrannau 43(5) a 45(5) er mwyn cynyddu cyfanswm y rhyddhad i unrhyw swm hyd at 100%. Mae paragraff 3 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn darparu y gellir gwrthbwysu 25% o swm unrhyw ryddhad ychwanegol o'r fath a roddir gan yr awdurdod yn erbyn cyfraniad yr awdurdod i'r gronfa.

32. Yn Llinell 17 nodwch gyfanswm:

- (i) 25% o symiau unrhyw ryddhad ychwanegol a roddir mewn perthynas â diwrnodau yn 2021-22; a
- (ii) 25% o unrhyw ryddhad ychwanegol a roddir mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol nas ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol; llai
- (iii) cyfanswm unrhyw symiau o'r fath, mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol, a ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol ond a ddylai, ar sail gwybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Llinell 17.5 Clybiau chwaraeon amatur cymunedol cofrestredig

33. Yn Llinell 17.5 nodwch 25% o gyfanswm unrhyw ryddhad a roddwyd gan yr awdurdod ar gyfer 2021-22 gan ddefnyddio ei bwerau o dan adran 47(1) ac adran 47(5B) o'r Ddeddf, h.y. rhyddhad ychwanegol ar gyfer clybiau chwaraeon amatur cymunedol cofrestredig sy'n cael rhyddhad ardrethi gorfodol.

- (i) 25% o symiau unrhyw ryddhad ychwanegol a roddir mewn perthynas â diwrnodau yn 2021-22; a
- (ii) 25% o unrhyw ryddhad ychwanegol a roddir mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol nas ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol; llai
- (iii) cyfanswm unrhyw symiau o'r fath, mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol, a ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol ond a ddylai, ar sail gwybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Llinell 18 Cyrff nad ydynt yn gwneud elw

34. Mae adrannau 47(5B) a fewnosodwyd gan adran 69(6) o'r Ddeddf Lleoliaeth yn galluogi awdurdodau bilio i roi rhyddhad grant o hyd at 100% i gyrff penodol nad ydynt yn gwneud elw. Mae paragraff 3 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau, fel y'i diwygiwyd ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu cyn 1 Ebrill 2002 yn darparu y gellir gwrthbwysu 90% o swm unrhyw ryddhad o'r fath a roddir gan yr awdurdod yn erbyn cyfraniad awdurdod i'r gronfa. Fodd bynnag, ni ellir gwrthbwysu unrhyw ryddhad yr honnir iddo gael ei roi i ysgolion sirol awdurdodau addysg lleol yn erbyn y gronfa (gan mai'r awdurdodau addysg lleol yw'r deiliaid ardrethol).

35. Yn Llinell 18 nodwch gyfanswm:

- (i) 90% o symiau'r rhyddhad a roddwyd dan adrannau 47(5B) a fewnosodwyd gan adran 69(6) o'r Ddeddf Lleoliaeth mewn perthynas â diwrnodau yn 2021-22; a
- (ii) 90% o symiau'r rhyddhad a roddir o dan adrannau 47(5B) a fewnosodwyd gan adran 69(6) o'r Ddeddf Lleoliaeth mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol, ar yr amod bod y rhain ar ôl 1 Ebrill 2002, pan fydd 75% yn gymwys ar gyfer blynyddoedd cyn 1 Ebrill 2002, nas ystyriwyd mewn cyfrifiad alldro ar gyfer blwyddyn flaenorol; llai
- (iii) cyfanswm unrhyw symiau o'r fath, mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol, a ystyriwyd ar gyfer blwyddyn flaenorol na ddylent, ar sail y wybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Llinell 19 Busnesau Gwledig (Rhyddhad Ardrethi Gwledig)

36. Mae adran 47(3)(a) o Ddeddf 1988 yn galluogi awdurdodau i ychwanegu at y rhyddhad gorfodol a roddir i fusnesau gwledig penodol o dan adran 43(6A) o Ddeddf 1988 a Gorchymyn Ardrethu Annomestig Rhyddhad Ardrethi Gwledig 2002/OS 331, er mwyn cynyddu cyfanswm y rhyddhad i unrhyw swm hyd at 100%. Mae paragraff 3 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau, fel y'i diwygiwyd ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu cyn 1 Ebrill 2002, yn darparu y gellir gwrthbwysu 90% o swm unrhyw ryddhad ychwanegol o'r fath a roddir gan yr awdurdod yn erbyn cyfraniad yr awdurdod i'r gronfa.

37. Yn Llinell 19 nodwch gyfanswm:

- (i) 90% o symiau'r rhyddhad ychwanegol a roddir i fusnesau gwledig cymwys mewn perthynas â diwrnodau cyn 1 Ebrill 2007 nas ystyriwyd mewn cyfrifiad alldro ar gyfer blwyddyn flaenorol;

llai

- (ii) cyfanswm unrhyw symiau o'r fath, mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol, a ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol ond a ddylai, ar sail gwybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Llinell 21 Caledi

38. Mae adran 49 o Ddeddf 1988 yn galluogi awdurdodau bilio i leihau atebolrwydd neu anfon taliad yn ôl mewn perthynas ag ardrethi annomestig ar sail caledi. Mae paragraff 3 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn darparu y gellir gwrthbwysu 75% o swm unrhyw ryddhad a roddir yn erbyn cyfraniad yr awdurdod i'r gronfa.

39. Yn Llinell 21 nodwch gyfanswm:

- (i) 75% o symiau'r rhyddhad caledi a roddir mewn perthynas â diwrnodau yn 2021-22; a
- (ii) 75% o'r rhyddhad caledi a roddir mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol nas ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn, nas ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol; llai
- (iii) cyfanswm unrhyw symiau o'r fath, mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol, a ystyriwyd mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol ond a ddylai, ar sail gwybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Llinell 22 Arwystlon ar eiddo

40. Mae paragraff 5 o Atodlen i'r Rheoliadau yn ei gwneud yn bosibl i ddidyniadau gael eu gwneud o'r cyfraniad i'r gronfa mewn perthynas â symiau y gohiriwyd y broses o'u hadennill drwy gytundeb o dan reoliad 5 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) (Diwygio a Darpariaethau Amrywiol) 1991 (OS (SI 1991/141)).

41. Gellir cyfrifo'r swm sydd i'w nodi yn Llinell 22 drwy ddefnyddio'r fformiwla (O-P)-(Q+R-S) lle:

O = 75% o symiau y gohiriwyd y broses o'u hadennill drwy gytundeb, naill ai yn 2021-22 neu mewn blwyddyn flaenorol, nas ystyriwyd yn flaenorol fel symiau a ohiriwyd;

P = symiau a ohiriwyd (o dan eitem O neu'r hyn sy'n cyfateb iddi o dan y rheolau blaenorol) mewn perthynas â diwrnodau mewn blwyddyn flaenorol ac na ddylent, ar sail y wybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried;

Q = 75% o symiau a ystyriwyd fel symiau a ohiriwyd yn alldro blwyddyn flaenorol sydd bellach wedi'u talu, neu y mae telerau'r cytundeb wedi dod i ben ar eu cyfer;

R = 75% o unrhyw log sy'n daladwy o ganlyniad i gytundeb a ystyriwyd yn alldro blwyddyn flaenorol ac sydd bellach wedi'i dalu neu y mae telerau'r cytundeb wedi dod i ben ar ei gyfer;

S = cyfanswm unrhyw symiau a ystyriwyd fel symiau a ddisgrifir o dan Q neu R (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt o dan y rheolau blaenorol) yn alldro blwyddyn flaenorol ond na ddylent, ar sail y wybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael eu hystyried.

Mae'n rhaid i'r ychwanegiadau mewn perthynas â Q ac R pan fo'r cytundeb wedi dod i ben gael eu gwneud yn y flwyddyn y daw'r swm yn daladwy hyd yn oed os na thelir y swm, am ba reswm bynnag, tan flwyddyn ddiweddarach. (Os telir y swm yn Q cyn i'r cytundeb ddod i ben, bydd angen ychwanegu swm o dan R yn y flwyddyn y gwneir y taliad).

D.S. os daw mwy o symiau yn daladwy yn y flwyddyn ar ôl i hen gytundebau ddod i ben nag a ohirir o dan gytundebau newydd, gallai'r fformiwla roi ffigur negyddol. Bydd hyn yn ychwanegiad at y swm gros yn hytrach na didyniad.

Llinell 23 Arenillion net

42. Caiff Llinell 23 ei chyfrifo'n awtomatig fel y swm gros (Llinell 16) llai'r symiau ar gyfer rhyddhad yn ôl disgresiwn (Llinellau 17 i 22).

Llinell 24 Lwfans ar gyfer costau casglu

43. Mae paragraff 4 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer lwfans i'r costau casglu gael eu gwrthbwysu yn erbyn cyfraniad yr awdurdod i'r gronfa. Dylai swm y lwfans sylfaenol yn Llinell 24 gyfateb i'r cyfrifiad dros dro ar gyfer 2021-22 (NDR1, llinell 17).

Llinell 25 Colledion wrth gasglu

44. Mae paragraff 6 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn ei gwneud yn bosibl i symiau mewn perthynas â cholledion wrth gasglu gael eu didynnu o'r swm gros, ar yr amod na chawsant eu hystyried mewn cyfrifiad ar gyfer blwyddyn flaenorol. O dan baragraff 1(2) o Atodlen 1 i'r Rheoliadau, dim ond os bydd yr awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod ardrethi annomestig yn cael eu casglu mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol y gellir caniatáu didynnu symiau o'r fath. Cyhoeddwyd canllawiau ar wahân ar y mater hwn a chaiff p'un a yw'r awdurdod wedi bodloni'r meini prawf ei ardystio drwy archwiliad.

45. Y bwriad yma yw cofnodi'r symudiad net yn unig yn narpariaeth drwgddyledion yr awdurdod ar gyfer y flwyddyn ynghyd â dyledion a ddilëwyd mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn. Felly, yn Llinell 25, nodwch y swm sy'n cyfateb i gyfanswm:

- (i) symiau o ardrethi sy'n daladwy a thaliadau llog penodol sy'n ddyledion amheus y darparwyd ar eu cyfer; llai
- (ii) symiau ardrethi sy'n daladwy a thaliadau llog penodol a oedd yn ddyledion amheus y darparwyd ar eu cyfer ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol; a
- (iii) symiau ardrethi sy'n daladwy a thaliadau llog penodol a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn.

46. Os yw'r awdurdod wedi llunio unrhyw gytundebau o dan baragraff 1 a 4A o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 i ohirio'r broses o adennill dyled ardrethol ac wedi codi llog ar y ddyled, ond yr ymddengys na ellir adennill y llog, gall yr awdurdod wrthbwysu hyn yn erbyn y gronfa yn yr un ffordd ag y mae'n darparu ar gyfer y ddrwgddyled ei hun.

Llinell 26 Ad-dalu gordaliadau / llog ar ad-daliadau

47. Mae paragraff 7 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn darparu y dylai symiau gros llog a dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn o dan Reoliadau Ardrethu Annomestig (Talu Llog) 1990 (OS 1990/1904) (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ardrethu Annomestig (Talu Llog) (Diwygio) 1991 (OS 1991/2111), mewn perthynas â gordaliadau a ad-dalwyd o ganlyniad i newidiadau i'r rhestr ardrethi lleol o dan adran 55 o Atodlen 9 i Ddeddf 1988, neu baragraff 2(2A) o'r Ddeddf honno, hefyd gael eu didynnu o'r swm gros.
48. Yn Llinell 26 nodwch y swm mewn perthynas â llog a ddaeth yn daladwy gan yr awdurdod mewn perthynas â'r flwyddyn gyfredol neu flynyddoedd blaenorol ac sydd i'w ddidynnu o'r swm gros. Cyfanswm:
- (i) llog a ddaeth yn daladwy gan yr awdurdod yn ystod 2021-22;
a
 - (ii) llog a oedd yn daladwy gan yr awdurdod mewn blwyddyn flaenorol ond nas ystyriwyd yn y cyfrifiad alldro ar gyfer y flwyddyn honno;
llai
 - (iii) llog a ystyriwyd mewn blwyddyn flaenorol ond na ddylai, ar sail y wybodaeth sydd bellach ar gael, fod wedi cael ei hystyried.

Llinell 27 Cyfraniad i'r gronfa

49. Cyfrifir Llinell 27 fel arenillion net (Llinell 23) llai lwfans ar gyfer costau casglu (Llinell 24), llai lwfans ar gyfer colledion wrth gasglu (Llinell 25) llai llog ar ad-daliadau ardrethi a ordalwyd (Llinell 26).

Eitemau memorandwm

Llinellau 40 i 43

50. Yn Llinell 40 rhwch nifer yr heredimentau a welir yn rhestr ardrethu annomestig ardal yr awdurdod ar 1 Ebrill yn y flwyddyn ariannol gyfredol.
51. Yn Llinell 41 rhwch nifer yr heredimentau a welir yn rhestr ardrethu annomestig ardal yr awdurdod ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol gyfredol.
52. Yn Llinell 42 rhwch y gwerth ardrethol cyfanredol a welir yn rhestr ardrethu annomestig ardal yr awdurdod ar 1 Ebrill yn y flwyddyn ariannol gyfredol.
53. Yn Llinell 43 rhwch y gwerth ardrethol cyfanredol a welir yn rhestr ardrethu annomestig ardal yr awdurdod ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol gyfredol.
54. Mae angen Llinellau 40 i 43 er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gyfrifo cyfanswm y cynnydd neu'r gostyngiad yn nifer yr eiddo ym mhob awdurdod bilio a'r cynnydd neu'r gostyngiad yn y gwerth ardrethol cyfan o fewn y flwyddyn ariannol. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio er mwyn cyfrifo'r twf yn y sylfaen drethi ar gyfer eiddo annomestig. Nid yw'n ofynnol i linellau memorandwm gael eu harchwilio.

Cymorth Gwladwriaethol a Rheoli Cymorthdaliadau

Yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, nid yw rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol ond yn berthnasol o dan amgylchiadau cyfyngedig.

Daeth Trefn Gymorthdaliadau'r DU i rym ar 1 Ionawr 2021. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn aros am gyngor gan Lywodraeth y DU ynghylch gweithredu cynlluniau rhyddhad ardrethi o dan y drefn rheoli cymorthdaliadau a bydd canllawiau diwygiedig i egluro'r sefyllfa yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Mae rhagor o arweiniad ar Drefn Gymorthdaliadau'r DU ar gael ar [wefan](https://www.gov.uk) GOV.UK

Dyma fanylion cyswllt Uned Polisi Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cymru:

Yr Uned Polisi Cymorth Gwladwriaethol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: State.Aid@llyw.cymru

Ardystio

55. Unwaith y bydd y ffurflen wedi'i chwblhau, dylid gwirio'r ffurflen ddilysu yn y daenlen rhag ofn bod negeseuon am wallau. Os oes neges am wall, dylid gwneud cywiriad addas neu roi rheswm priodol.

56. Unwaith y bydd y broses uchod wedi'i chwblhau, dylai'r Prif Swyddog Cyllid ardystio:

- (i) Mai'r hyn a nodwyd yn Rhannau 1 a 2 o'r ffurflen hon yw'r gorau y gellir ei ddarparu ar sail yr wybodaeth sydd ar gael;
- (ii) Bod yr hyn a nodwyd yn Rhan 2 wedi'i wneud yn unol â Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992, fel y'u diwygiwyd.
- (iii) Ac yn enwedig bod yr hyn a nodwyd yn Llinell 24 (Lwfans ar gyfer costau casglu) wedi'i gyfrifo'n unol â nifer yr hereditmentau a'r gwerthoedd ardrethol a welir yn rhestr ardrethol yr awdurdod ar 31 Rhagfyr 2021.

57. Dylid e-bostio copi Excel o'r daenlen a'r PDF wedi'i llofnodi i'r cyfeiriad a ddangosir ar y clawr blaen erbyn 27 Mai 2022. Ar yr un pryd dylid anfon y ffurflen wreiddiol at archwilwyr yr awdurdod i'w hardystio. Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad i hysbysu Llywodraeth Cymru am swm y cyfraniad, dylai'r awdurdodau drefnu i'r PDF a'r daenlen ardystiedig gael eu hanfon i Lywodraeth Cymru erbyn 18 Tachwedd 2022.

58. Bydd yn ofynnol i archwilwyr ardystio bod pob ffigur wedi'i ddatgan yn deg ac wedi'i gyfrifo yn unol â'r nodyn cyfarwyddyd sy'n seiliedig ar y Rheoliadau.

59. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 5, bydd Llywodraeth Cymru yn llunio setliad dros dro o ran y cyfrif alldro ar sail y swm a ardystir gan y Prif Swyddog Cyllid ac yr hysbysir Llywodraeth Cymru amdano cyn iddo gael ei ardystio gan yr archwilwyr ('swm ardystiedig'). Caiff unrhyw setliad terfynol ei lunio ar sail y swm ardystiedig.